

Mae'r ffaith mod i'n cyflwyno'r anerchiad hwn i'r Esgobaeth drwy ddull electronig yn hytrach nag yn ein Cynhadledd Esgobaethol neu adeg fy Ngofwyon Esgobol, yn arwydd o'r hyn a fu yn 2020. Dau ddeg dau ddeg

Blwyddyn ddathlu – dyna oedd y bwriad gogyfer â 2020 dau ddeg dau ddeg: dathlu canmlwyddiant Datgysylltu y pedair esgobaeth Gymreig hanesyddol oddiwrth Eglwys Loegr a ffurfio talaith yr Eglwys yng Nghymru. O'n rhan ninnau yn Nhyddewi, bwriadwyd i 2020 hefyd fod yn achlysur dathlu 900 cant mlwyddiant cydnabod Dewi Sant yn sant gan y Babaeth yn Rhufain. Hyd yn hyn, Dewi Sant yw'r unig un o blith seintiau Cymru i'w gydnabod yn y modd hwn. Adeg ein Cynhadledd Esgobaethol llynedd, fe wnes i annog pawb ohonom i gredu ac i ymddiried yn yr hyn y gallai Duw ei gyflawni ynom a thrywom. Ni fu 2020 yn unol â'n gobeithion na'n cynlluniau.

Bu'n flwyddyn anodd ledled y byd, yn y Deyrnas Gyfunol ac yma yng Nghymru. Anrheithiwyd cymunedau ar hyd a lled y byd gan Govid-19 undeg naw, a mae hyn yn dal i ddiwydd. Bylchwyd teuluoedd ymhob man, o golli anwyliaid. Tra bo rhai pobl wedi goroesi Covid yn gymharol ddidrafferth, bu'n frwydr enbyd i eraill, gydag effeithiau hir-dymor yn parhau. Cafodd Covid effaith ar iechyd pobl, a'u bywoliaeth yn ogystal. Gwelwyd aml i fusnes yn mynd i'r wal a phobl yn colli eu gwaith. Rhoddwyd prawf didostur ar gyfun-dref-nau llywodraethu'r Deyrnas Unedig a Chymru. Am-lyg-wyd gwaith caled ac ymroddiad ein gwasanaeth iechyd gwladol, staff cartrefi gofal a'r rheiny sy'n gofalu am bobl yn eu cartrefi eu hunain, ochr yn ochr â'r bobl hynny, a'u gwaith diflino o ran cynnal bywyd pob dydd, a hynny mewn amryw ffyrdd, yn y cyfnod heriol hwn. Bu hynny ar draul einioes ambell un. O ran y rheiny sydd, hyd yma, heb ddal y feirws, maent er hynny wedi goroesi'r cyfnod(au) clo a fu'n dreth nid bychan ar iechyd meddwl pawb. Roedd 2021, wedi Brexit, o'r cychwyn cyntaf yn sicr o fod yn heriol ac anodd i ni yng Nghymru. Gymaint anos dygymod â'r heriau hynny dan gysgod Covid 19.

Effeithiodd Covid 19 arnom fel unigolion ac fel esgobaeth; a hynny'n bennaf o ran eglwysi ac ardaloedd weinidogaeth lleol. Bu'n rhaid cau ein hadeiladau eglwysig mewn modd nas gwelwyd cynt. Methwyd dod ynghyd yn y cawd i addoli Duw neu i gyd-gym-deith-asu yn ôl ein harfer. Anodd oedd derbyn hyn. Gwelsom eisiau'r maeth a'r boddhâd o fod gyda'n gilydd – rhywbeth a gymerir yn ganiataol fel rheol. Llafurus a beichus fu'r dasg o drefnu agor ein hadeiladau eglwysig. Diolch am ddycnwch Mr Alex Glanville a'i dîm yn y Swyddfa Dal-eith-iol, am gadw llygad ar y rheoliadau wrth iddynt newid, ac am eu cyfarwyddyd sicr i'n galluogi i gydweddiö a chydaddoli yn ein Cadeirlan a'n hadeiladau eglwysig, a hynny mewn modd diogel. Pob clod i'r Archddiaconiaid am fwrw ati i sicrhau fod y canllawiau hyn yn eu lle ac am fod yn gefn cadarn i glerigiaid a llyegwyr a fynnai fanteisio ar bob cyfle oedd ar gael, yn unol â'r rheoliadau. Ynghanol y newidiadau di-ri rhaid diolch i glerigiaid a phobl leyg ein AWL am ymateb i her cynnal eglwys mewn cyfnod pur dywyll.

Yn fy Anerchiad fel Llywydd y Gynhadledd llynedd, mynegais fy ymddiriedaeth yn Nuw. Dyfynnaf fy ngeiriau, "Mae gen i ffydd y bydd Duw yn gweithio ynoch chi os gofynnwch iddo. Mae gen i ffydd y bydd Duw yn gweithio drwoch chi o adael iddo wneud. Does dim rhaid i ni gyrraedd pob nod a bod yn Gristionogion perffaith; digon yw agor ein bywydau a'n holl annibendod gerbron yr Un a'n creodd, ac â'n carodd â'r cariad eithaf sy'n drech na phob pechod, y cariad sy'n abl i'n trawsnewid mewn modd cwbl naturiol drwy ei Ysbryd Sanctaidd. Nid cael profiadau crefyddol aruchel mo'r nod, na chwaith weddio'n daer, ond bod yn agored i'r Duw real, a dysgu caru fesul diwrnod. Rwy'n ymddiried yn Nuw i weithio ynom a thrwom fel esgobaeth. Fe wna i ailadrodd hynna. Rwy'n ymddiried yn Nuw i weithio ynom a thrwom fel esgobaeth. Rwy'n ymddiried yn Nuw i ddarparu ar ein cyfer yr adnoddau ariannol angenrheidiol; rwy'n ymddiried yn Nuw i alw rhai i'w wasanaethu, a rwy'n ymddiried yn Nuw i ddangos ei hun i ni ac i eraill drwom ni. Gellir ymddiried yn Nuw i chwarae ei ran."

Ychydig a wyddwn i pa mor heriol fyddai'r flwyddyn ddilynol i bawb ohonom. Hyd yn hyn dyw hi ddim yn bosib i ni ymlacio ac edrych yn ôl, ond er gwaetha'r ansicrwydd mae yna, hyd y gwelaf, amryw enghreifftiau o Dduw yn ei ddaioni, yn ein galluogi i oroesi, ddydd ar ôl dydd ac er garwed yr ymdrech, y cyfnod hynod anodd hwn. Fel yn achos pawb ohonoch, bu'r misoedd olaf hyn yn dreth arnaf innau. I gychwyn, doedd dim modd gwybod beth oedd i ddod, na pha mor hir y disgwyl; a dyna Wythnos Fawr a Phasg fel na welwyd cynt. Ond wrth i mi sefyll a datgan "Alelwia, cyfododd Crist!" a'm cynulleidfa fechan - Adrian a'm mab hynaf a'm merch-yng-nghyfraith – yng ngardd gefn Llys Esgob, yn ateb "Cyfododd yn wir! Alelwia," gwyddwn fod y Crist byw yn ein plith.

Doedd y dyddiau oedd yn dilyn ddim yn rhwydd, na'r wythnosau na'r misoedd chwaith. Er imi fod yn hapus ar fy mhen fy hun erioed, gwelais eisiau'r gyfeillach arferol gyda'm Caplan Caroline a'm C.P Dawn, a chyda'm cydweithwyr Esgobaethol sy'n gefn mor sicr i mi. Gwelais eisiau gadael y swyddfa er mwyn bod gyda chlerigwyr a phlwyfolion ledled yr Esgobaeth. Bu'r cyfarfodydd Zoom di-ddiwedd, a heb fedru cnoi cîl am y cynnwys, ynghyd â'r ansicrwydd a'r gofidiau ynghylch y sefyllfa gyfredol, yn dreth arnaf i, fel ar bawb arall. Ond drwy'r cyfan oll, gwelais – a daliaf i weld – arwyddion fod Duw yng Nghrist ar waith yn ein plith. Nid â'n angof y gwasanaeth Zoom cyntaf i mi ei fynychu. Adeg y Pasg oedd hi yn AWL Roose, a phrofais, o lygad y ffynnon, mai ysbryd Duw sy'n ein clymu ynghyd, gan ein maethu a'n cynnal mewn addoliad. Â minnau'n eistedd yn fy stydi o flaen y gliadiadur, medrais brofi yn y gwasanaeth hwnnw addoliad, gweddi, mawl a chymdeithas, yr un math yn union â phan addolaf yn eich cwmni, wyneb yn wyneb. Ni wyddwn beth i'w ddisgwyl gan wasanaeth Zoom, ond nid, yn sicr, y cyfryw gymdeithas na chwaith ysbryd mor weddigar. Duw yn darpar, heb os nac onibai. Pwysleisiwyd hyn yn y digwyddiadau gweddi Zoom 'Deued Dy Deyrnas', a drefnwyd gan Archddiacon Mones a than arweiniad gwahanol bobl o sawl rhan o'r Esgobaeth. Cafwyd amrywiaeth helaeth yn y digwyddiadau, ond ar bob achlysur fe'n dyrchafwyd, bawb ohonom, yn ein cartrefi ein hunain, gan ras Duw, wrth i ni geisio cyffroad Ysbryd Duw yn ein plith. Diolch o galon i'r sawl a wnaeth arwain y digwyddiadau Zoom hyn ac i bawb a drefnodd wasanaethau drwy gyfrwng gweplyfr neu U-diwb; tebyg fod ambell un o'r rheiny wedi eu mwynhau gan bobl ym mhellafoedd byd yn ogystal â'n pobl ein hunain. Diolch hefyd i'r sawl, ymhell ac agos, a'm gwahoddodd i rannu addoliad â hwy yn y cyfnod diweddar, er dwyn rhyw ffresni i'r profiad hwn o Grist. Rwy'n dal i ymddiried yn Nuw eleni, fel llynedd, ar iddo ddatgelu ei hun ynom ni a thrwom ni.

Hysbysodd Duw ei hun yn ein plith drwy ddulliau newydd y dechnoleg gyfoes, Zoom, YouTube a Facebook, ond hefyd drwy y cyswllt personol a fu mor bwysig i'n gweinidogaeth. Bu clerigiaid wrthi'n paratoi taflenni newyddion, pregethau ac ambell drefn gwasanaeth; anfonwyd rhai drwy ebost, eraill drwy lythyr, ac weithiau dosbarthwyd deunydd yn bersonol i gartrefi, curo a thorri gair ond heb groesi'r trothwy. Parhaodd ein clerigiaid a'n gweinidogion lleyg, pan oedd modd, i weini gras Duw i bobl yn eu llawenydd a'u poen. Buoch yn flaengar eich gweithredoedd ac yn sianeli cyson i lawnder gras Duw. Â minnau'n Esgob dros och, rwy'n eich cyfarch a'ch canmol ar gyfrif popeth a wnaethoch mewn dyddiau heriol tu hwnt.

Nid bywyd lleol yn unig a effeithiwyd gan y feirws. Fis Mawrth eleni, caeodd Swyddfa'r Esgobaeth ei drysau, ac felly hefyd fy swyddfa innau, yn ein tŷb ni am wythnos neu bythefnos efallai. Nid felly o gwbl. Hoffwn ddiolch i Mr Howard Llewellyn a staff yr Esgobaeth, a ddaliodd ati'n ddygn i sicrhau parhad gwaith gweinyddol y swyddfa. Bu'n ddigon anodd iddynt weithio o gartref, neu, yn achos Mrs Anne Foreman, gorfod parhau â gwaith hanfodol yn adeilad y swyddfa, gwaith na ellir ei gyflawni heb fod yno'n bersonol. Diolch o galon i bawb ohonynt.

Rwy'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gafwyd i'r Esgobaethau gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru. A hithau'n fwyddyn arbennig – yn ganmlwyddiant ein geni – cafwyd pob cymorth ynghanol yr argyfwng, gan y Corff; derbyniodd ein Bwrdd Cyllid Esgobaethol y taliadau arferol oll ganddynt heb ddisgwyl cael y taliadau cyfatebol yn ôl gan y BCE ddiwedd Mehefin a Medi. Drwy hyn roedd ein BCE yn medru hysbysu ein Heglwys na ddisgwylid Cyfran Weinidogaethol misoedd Mehefin a Medi eleni. Ym mlwyddyn ein dathlu, defnyddiodd Duw haelioni ein cyndeidiau a stiwardiaeth gadarn Corff y Cynrychiolwyr a'n BCE Bwrdd Cyllid Esgobaethol y taliadau arferol oll ganddynt heb ddisgwyl cael y taliadau cyfatebol yn ôl gan y ddiwallu ein hanghenion heddiw.

Tarodd Covid 19 ar adeg o'n bywyd Esgobaethol pan oedd proses ad-drefnu plwyfi yn AWL yn dirwyn i ben (hyn oherwydd gorfod sicrhau ein bod yn talu'n ffordd fel Esgobaeth). Doedd honno ddim yn broses rwydd, o bell ffordd ac, o ddewis, ni fyddem wedi ei chychwyn, ond pan gwrddais i â Chadeiryddion a chynrychiolwyr Lleyg yr AWL ar Zoom yn yr haf, mewn tri chyfarfod Arch-ddia-con-iaethol, dywedwyd sawl peth gobeithiol. Soniwyd am fanteision cydweithio, rhannu doniau a phrofiad, cysylltu â chynulleidfaoedd y tu hwnt i'r ffiniau arferol, gweithio ynghyd ag eraill – ie arwyddion gobaith, yn ddi-os. Fel y nodais llynedd, rwy'n hynod ddiolchgar i Canon Marianne a'i thîm trawsnewid, hefyd i glerigiaid a phobl leyg yr Esgobaeth am y gwaith caled a'r ymroddiad a amlygwyd yn ystod y newid mawr, proses a ddaeth i ben pan sefydlwyd Dyffryn Teifi, yr olaf i'w ffurfio, ddydd Mawrth 15fed Medi eleni. Mae Canon Marianne a'r Tîm trawsnewid wedi dwyn pwys a gwres y dydd, a byddant yn dal i fod ar gael i helpu timau AWL ledled yr Esgobaeth wrth i chi geisio ffyrdd i fod yn Eglwys ynghyd, yn eich ardaloedd. Diolch am ymroddiad fy Nghofrestrydd, Mr Arwel Davies a'm cyn-gofrestrydd, Mr Anthony Jenkins, a ofalodd, law yn llaw â'r tîm yn y Swyddfa Daleithiol, am wedd gyfreithiol ein trefniadau. Rwy'n ddyledus iawn i Esgob a thîm Esgobaethol Llanelwy am eu cymorth a'u cyngor hwythau, gan iddynt brofi eu proses ad-drefnu eisoes. Roedd eu cymorth yn werth y byd. Diolch o galon yn ogystal i Archddiacon Paul, am ei ddoniau gweinyddu a threfnu di-ail. Felly hefyd yr Ysgrifennydd Esgobaethol a'i dîm staff, ynghyd â Chadeirydd ac aelodau'r Bwrdd Cyllid Esgobaethol y taliadau arferol oll ganddynt heb ddisgwyl cael y taliadau cyfatebol yn ôl

gan y, am roi o’u gorau, a hynny mewn modd dychmygus, i gynnig pob cefnogaeth ymarferol i’r AWL yn ystod y newid mawr. Maent wedi gwranddo ar awgrymiadau’r bobl allweddol, o ran yr hyn sydd ei angen er mwyn i’r AWL weithredu’n hwylus, gan wneud eu gorau i ddarpar ar eu cyfer, neu o leiaf awgrymu eraill a all helpu.

Pob clod i’r Archddiaconiaid, y clerigiaid a’r bobl leyg yma yn Esgobaeth Tyddewi, am gydweithio â’r broses hon, er nad hynny, yn ddefnyddol fyddai ein dewis, a diolch iddynt am sicrhau modd i ni barhau i addoli Duw, i wasanaethu Ei fyd a datgan Ei gariad i’r cymunedau o’n hamgylch. Diolch i Canon Rhiannon Johnson a phob aelod o’i Thîm Gweinidogaethol am sicrhau fod pawb sy’n gwasanaethu ymhob rhyw ffordd yn cael eu dirnad, eu hyfforddi a’u cefnogi’n briodol, o ran pa weinidogaeth bynnag a fo’n eiddo iddynt, ar ein rhan. Rwy’n bur ddyledus i’r Canon Rhiannon am ei hymdrechion i sicrhau fod gennym adnoddau parod o’i heiddo, at ein gwasanaeth, ac i’r Archddiaconiaid, Timau a Chynghorau AWL a fu wrthi yn lleol yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Ers mis Mawrth, cawsom brofiad o rywbeth na wyddom amdano, ond yn unigol, yn ein teuluoedd neu grwpiau cyfeillgarwch, neu drwy gipolwg ar eitemau newyddion am fywydau pobl eraill: fod bywyd dynol ar y blaned hon, yn aml yn anodd. Bydd rhai ohonom yn goroesi Covid 19 yn gymharol hwylus. Collodd eraill eu bywydau, neu efallai golli anwyliaid. I eraill eto, bu’r pwysau’n drwm, megis gweithwyr mewn ysbytai, gofalwyr ac ymatebwyr lu, o bob math, pobl y dibynnir arnynt yn gyson mewn argyfwng. Ochr yn ochr â dewrder ac ymroddiad y cyfryw rai, gwelwyd gwendidau a diffygion gwleidyddol a llywodraethol: ar adegau fel hyn ein pennaf angen yw am arbenigwyr a gweision cyhoeddus ymroddgar. Tybed?! Clywsom droeon a thro yn ystod y degawd diwethaf mai yn y farchnad mae’r ateb i bopeth, do, datgelwyd pa mor ddiffygiol y grêd hon!

Ai busnes yr Eglwys yw hynny? Pam mae’r Esgob yn mynnu bod yn wleidyddol? Ie, busnes yr Eglwys, yn bendifaddau, yw hyn gan ein bod, bob un, yn aelodau mewn oed o’n democratiaeth Brydeinig, a mae bywyd ein cymunedau yn fater i bawb ohonom, boed glerig neu leyg. Gorchmynodd Iesu, ein Harglwydd a’n Gwardedwr, i’r Apostolion cyn iddo ddiflannu o’u golwg, i fynd a gwneud disgyblion o bob cenedl. Treuliasai Iesu flynyddoedd olaf ei fywyd daearol yn dysgu ei ddisgyblion beth oedd ystyr bod yn ddisgybl, yn ddilynwr i Iesu. Mae gennym bedwar casgliad o ddysgeidiaeth Iesu, sef Efengylau Matthew, Mark, Luc a Ioan, ynghyd â llythyrau’r Testament Newydd, rhai o law pobl a adwaenai Iesu, llythyrau Iago, 1 Pedr a Judas, neu o law St Paul, a dderbyniodd yr efengyl drwy ddatguddiad uniongyrchol; a roedd hynny, medd Paul, yn ddilys gan i ddysgeidiaeth yr Apostolion a gyfarfu, gadarnhau hynny. Mae’r llythyrau hynny, ynghyd â dysgeidiaeth Iesu yn yr Efengylau, yn gwbl eglur: rhaid i’n ffydd fel Cristionogion fod yn ddarlun o’r modd y dylem fyw, gan ein galluogi i gyfrannu’n deg a chytbwys i’n cymdeithasau.

Nid yw hyn yn golygu y bydd Cristionogion yn cytuno pa bolisiau neu bleidiau gwleidyddol i’w cefnogi, ond yr hyn y mae’n rhaid penderfynu yn ei gylch yw pa faen prawf sy’n briodol gogyfer â’n dewis bolisiau: a ydyw’n ein tynnu’n nes at deyrnas Dduw, neu yn ein dieithrio – canys yr her i Gristionogion yw gwireddu’r deyrnas yn eu/ein bywydau. Ni fydd hynny o angenrheidrwydd, yn peri i ni gytuno ar y math o lywodraeth neu bolisiau ar ein cyfer, ond fe

rydd fodd i ni ddysgu oddiwrth ein gilydd, a chydweithio er y lles cyffredin, a hynny er gwaethaf ein gwahaniaethau: bod yn halen a goleuni, yn unol â gorchymyn Iesu.

Nid er ei fwyn ei hun y bu'r ad-drefnu diweddar. Nid chwilio strwythur perffaith mo nod y gwaith. Ceisio ffordd oedd y bwriad, ffordd i ddefnyddio'n briodol yr adnoddau oedd at ein gwasanaeth, er mwyn cyflawni, yn ein dydd a'n cenhedlaeth ninnau, her barhaus yr Eglwys: gwneud disgyblion o bob cenedl, a dysgu byw ynghyd, megis disgyblion gan ddilyn y Ffordd, sef ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist, ar hyd troeon cymhleth ein bywydau beunyddiol. O gyrraedd penllanw ein newidiadau strwythurol, erys y bwriad.

Ble nesa' felly? Bwriedir yn rhannol, yn ystod y tair blynedd nesaf, ddatblygu'r hyn a gychwynwyd gan fy rhagflaenydd, Esgob Wyn. Bydd gweinidogaeth GDG(LI)/ NSM(L) yn allweddol bwysig o ran tyfiad ein heglwysi lleol, a bydd gweinidogion Ffocal yn tynnu ein cymunedau eglwysig lleol at ei gilydd, fel bo'r gweinidogion eraill, y Di-gyflog a'r Cyflogedig, yn canolbwyntio ar arolygu a datblygu amrywiol weinidogaethau yn yr AWL. Bydd y Gydgyrdeithas Alwedigaethau yn dyngedfennol, o ran galluogi Cristionogion yn ein hesgobaeth i gyd-ddirnad sut y mae Duw yn eu galw i fod yn halen a goleuni; i rai, hybu gweinidogaeth pobl eraill fydd yr her, ymateb i alwad yn yr Eglwys, fel clerig neu leyg, gwaith bugeiliol neu addysgol, ym maes pobl ifanc a phlant, neu fel efenglydd. Diolch i'r Parch. Robb Wainright am ddod â'r Gydgyrdeithas Alwedigaethau i Dyddewi, am ei frwdfrydedd a'i ymroddiad, ac i Gaplaniaid y Gydgyrdeithas am gynorthwyo pobl yn ein hesgobaeth i bwyo a mesur yr hyn y mae Duw'n eu galw i wneud â'u bywyd. Rhaid i mi ddiolch i'r Canon John Bennett am gymryd awenau'r Gydgyrdeithas, wedi i Robb a Lindy symud yn ôl i Swydd Efrog.

Mae ein prosiect i sefydlu Canolfannau Cenhadu – menter gweinidogaethu a chenhadu arall a gychwynwyd yma gan Esgob Wyn – wedi elwa o'r Gronfa Efengylu Daleithiol. Ym mis Chwefror blwyddyn olaf, derbyniasom bron £2 filiwn o bunnoedd a fydd yn fodd iddynt barhau, a chaniatau i 9 aelod staff neilltuo pumed ran o'u hamser i helpu'r AddGLI, wrth i'r rheiny geisio plannu eglwysi a chymell oedolion i fagu ffydd a chael eu bedyddio. Mae gennym dair Canolfan Genhadu bellach. Sefydlwyd y Ganolfan ym Merlin's Bridge gan Esgob Wyn a'i hariannu o Gronfa Strategaeth yr Esgob; bydd cam nesaf y daith yn ddibynol ar y Gronfa Efengylu. Hoffwn dalu teyrnged i'r Chwaer Val Legg am ei gwaith diflino: bu'n cydweithio'n ddyfal â'r Parch Heather Cale, Pennaeth yr Ysgol Eglwys leol, hefyd â'r Efengylwyr Arloesol, Mrs Ruth Busisa a Ms Molly Baldwin, (sy'n gwasanaethu yn ystod cyfnod mamolaeth Ruth) i hau hâd y ffydd yn y gymuned leol. Mae'r Chwaer Val yn ein gadael er mwyn cychwyn swydd newydd yn Eglwys Loegr, ond gan adael Canolfan lewyrchus o'i hôl. Gyda chefnogaeth y Gronfa Efengylu Daleithiol, mae yna ddwy ganolfan arall ar y gweill, y naill yn Llanelli dan arweiniad y Parch Gaptin Rob Lowe a'r llall yn Crosshands. Daw'r canolfannau Cenhadu hyn o dan nawdd y bedwaredd Archddiaconiaeth, a'i harweinydd Archddiacon Mones. Diben y Canolfannau Cenhadu fel prosiectau yw ein helpu i ddysgu sut mae plannu eglwysi, a'r modd i efengylu fel esgobaeth, er dwyn aelodau i ffydd yn ein Harglwydd Iesu Grist, a'n hysgogi, bawb ohonom, i fod yn halen a goleuni yn y byd. Mae Archddiacon Mones, yngyd â'i dîm, hefyd yn gweithio i helpu AddGLI i ddysgu plannu eglwysi, felly cysylltwch â hwy!

Mae yna fwy i'n hesgobaeth na'n HddGLI a'r Bedwaredd Archddiaconiaeth. Byddwn yn gwneud ein gorau hefyd, yn ystod y tair blynedd nesaf, i gefnogi cenhadaeth a gweinidogaeth

ein Cadeirlan, ein Hysgolion Eglwys, Plant Dewi, Tir Dewi a gweithgareddau y Cyngor Esgobaethol dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol, neu y CEGC .

Diolch i Deon Sarah, ac i dîm y Gadeirlan a fu ar hyd y cyfnod hwn yn fam Eglwys i ni, gan annog ac ysbrydoli'r genedl drwy gyfrwng eu darllediadau ers cychwyn y cyfnod clo. Pwy yn wir all anghofio datganiad godidog yr Exultet o enau Canon Leigh yng Ngwynnos y Pasg, na chwaith y rhaglen wych honno pan welwyd e'n cymell amrywiaeth o bobl i symud eu dwylo er mwyn darlunio geiriau olaf Dewi Sant, "Byddwch lawen, cedwch y ffydd a gwnewch y pethau bychain"? Os aeth hyn yn angof gennych, neu oni welsoch y rhaglen, mae'n dal ar ein gwefan.

Â sôn am wefan, rhaid crybwyll ein Tîm Cyfathrebu dan arweiniad David Hammond-Williams. Heb David a'i dîm, buasem ar goll, ar ein pen ein hunain ac yn ynysig. Pobl Dewi wedyn, sy'n tynnu'r esgobaeth at ei gilydd dan law Tessa Briggs – diolch i bawb sy'n cyfrannu deunydd, ac i dîm golygyddol Tessa. Bu gwaith y tîm cyfan yn fodd i ni ddal cysylltiad y naill â'r llall drwy air, ac yn wir drwy weddi. Roedd gofalu fod y gwasanaethau boreol a hwyrol yn eu lle yn waith diarbed i David, a dim cyfle ganddo am saib, a hynny am fisoedd. Rwy'n hynod ddyledus iddo.

Rhaid talu teyrnged i'n Hysgolion Eglwys am addysgu ein plant, drwy'r clo mawr hyd yn oed. Diolch yn arbennig i'r ysgolion hynny, y penaethiaid a'r athrawon, a ofalodd am addysg i blant gweithwyr allweddol, yn ystod y cyfnod anodd, er sicrhau chwarae teg i bawb yn ein hardaloedd.

Testun cryn falchder hefyd yw gwaith dyfal y rheiny sy'n rhan o Plant Dewi, dan gyfarwyddyd Mrs Catrin Eldred, Tir Dewi dan arweiniad Mr Gareth Davies, a'r ~~CEGC~~ Cyngor Esgobaethol dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol dan law sicr y Parch Delyth Wilson. Ynghyd ag Undeb y Mamau, gyda Mrs Heather Witt wrth y llyw, maent yn llythrennol yn newid bywydau. Rhan annatod ydynt o'r darlun mawr – sut mae bod yn halen a goleuni yn ein cymunedau. Yn ystod fy nhair blynedd cyntaf, treuliais amser yn ymweld â phob Ysgol Eglwys a phob canolfan a phrosiect Plant Dewi, ac fe'm calonogwyd a'm hysbrydoli gan yr hyn a welais. Fy ngobaith yw ymweld, pan fydd modd, â phob cangen o Undeb Mamau yn y flwyddyn sydd i ddod.

Bydd y tair blynedd sydd o'n blaenau yn gyfnod prysur wrth i ni nesáu at ein dathlu mawr nesaf, a honno'n garreg filltir, gobeithio, y gellir ei dathlu gyda'n gilydd mewn modd mwy arferol. Yn ~~2023~~ dau ddeg dau ddeg tri gwelir 900 cant mlwyddiant y Pâb Callixtus II yn gwneud Cadeirlan Tyddewi yn fangre pererindod, datganiad a wnaed yn 1120. Wrth i ni nesáu at y dathliad hwn, bydd gan bob un o'r tair blynedd nesaf ei ffocws ei hun, i'n cludo y tu hwnt i'r 900 cant mlwyddiant yn ~~2023~~ dau ddeg dau ddeg tri , ac i'n hystyriaeth o'n pererindod Gristionogol ein hunain, yn unigolion ac yn gymuned ffydd. O'r Adfent hwn, 2020, dyma gychwyn blwyddyn o ddwysáu gweddi. Peidiwch disgwyl i'r Eglwys ddarparu adnoddau er eich cyfer. Y gobaith yw gweld eich AddGLI, adeg y Garawys yn arbennig, yn eich annog, yn ystod eich taith weddi, ond cofiwch ni fydd angen gwybodaeth arbenigol ar gyfer hyn gan fod gennym, bawb ohonom, y canllaw gorau oll, sef yr Ysbryd Glân. Mentrwch arni gan ofyn i'r Ysbryd Glân am gymorth i ddysgu gweddio o'r newydd. O fod angen cyngor, gofynnwch ar bob cyfrif, i rywun yn eich tîm AWL, ond mae agor eich calon i Dduw yn ddigon, gan agor eich llygaid a chanfod atebion Duw yn Ei Air, yn nhroeon eich bywyd, ac yn y bobl sy'n rhannu eich

taith. “Profwch fi” medd Duw drwy’r proffwyd Malachi. Rwy’n eich annog i brofi Duw eleni, a dysgwch fwy am weddi a byw bywyd gweddigar. Dyma fydd ein taith o Adfent 2020.

Yn Adfent 2021, cychwyn blwyddyn o fod yn ddisgyblion fydd y bwriad, ac o Adfent ~~2022~~, dau ddeg dau ddeg dau blwyddyn bererindod, ond nid at yr hen feini yn unig, nid at ein hen adeiladau eglwysig sy’n adleisio gweddiau’r saint, ond hefyd at yr amrywiol fannau sy’n arddangos cariad Duw yn ein hoes ninnau. Cofiwch wyllo gwefan ein Hesgobaeth os am arweiniad.

Felly, gweddi, bod yn ddisgybl, a phererindod – taith Esgobaethol driphlyg i’n helpu i ddilyn Iesu gyda’n gilydd, i rannu ein ffydd Gristionogol ag eraill, gan fyw megis dinasyddion Teyrnas Dduw yn Ei fyd, drwy fod yn halen a goleuni. Gallwn gychwyn y daith â gobaith. Yn ystod y flwyddyn anodd hon, gwelsom fod Duw yn gweithio ynom ni a throm ni, er gwaethaf popeth. Fel y nodais llynedd, a’i ailadrodd eleni, mae gen i ffydd, doed a ddelo, y bydd Duw, yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân, yn gydymaith ac arweinydd i ni yn y flwyddyn sydd i ddod, ac y bydd Ef yn darparu pob anghenhaid i’n galluogi i rannu Ei gariad gydag eraill.

Pwrpas deublyg sydd i’r geiriau hyn, sef y siars a fwriadwyd adeg fy Ngofwy, Fehefin eleni, a’r Hanerchiad fel Llywydd Cynhadledd Esgobaethol, fis Hydref. Dyma dasg i chi felly – gofyn i bob AWL ymateb i un cwestiwn: Pa dair nod fydd gennych fel AWL yn ystod y blynyddoedd hyn o weddi a bod yn ddisgybl, er mwyn bod yn barod i fentro fel pererinion i’ch cymuned leol? Pa amcanion penodedig fydd yn eiddo i chi, er mwyn medru canfod maes gweithgaredd Duw a bod yn rhan o’r gwaith, gan ddenu pobl i’ch cymuned ffydd yn Nuw, Tad, Mab ac Ysbryd Glân?

Cwestiwn maith o bosib, ond ei hanfod yw – pa dair her fydd yn eiddo i’ch AWL, er mwyn rhannu ffydd a dwyn eraill i garu, dilyn a gwasanaethu Iesu yn eich bro a’ch ardal?

Yn y flwyddyn bererindod 2023, pan fyddaf yn ymlwybro drwy’r Esgobaeth, bwriadaf – Duw yn fodlon – ymweld â phob AWL, gan ofyn i chi sôn wrthyf am yr hyn a fu, wrth i chi geisio cyrraedd eich amcanion. Nid ceisio darganfod pa mor llwyddiannus fuoch chi, fydd fy mwriad, gan mai Duw y pethau annisgwyl yw ein Duw ni, a phan awn yn Ei gwmmni does dim sicrwydd pendant i ba gyfeiriad y bydd hynny, ond bydd diddordeb gen i glywed am y daith a gychwynnodd â’ch tair nod. Felly, chi Ddeoniaid AddGLI a Chadeiryddion AddGLI, lluniwch broses i benderfynu ar eich tair nod, ac, wedi gwneud hynny, anfonwch fanylion i’r swyddfa erbyn Mawrth 28ain 2021 er mwyn iddynt fod yn sail neu ganolbwynt ein Cynhadledd Esgobaethol ohiriedig 2020, ar un deg ar saith fed o Ebrill dau ddeg dau ddeg un, wrth i ni gychwyn cam nesaf ein taith gyda’n gilydd.

Bendith Duw fo’n helaeth arnoch wrth i chi nesáu ato Ef, boed iddo eich nerthu i ddwyn pwysau’r daith, a boed i chi ras i sylweddoli Ei bresenoldeb, ddydd ar ôl dydd. Amen.